# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

## Arolygon Ymgynghori â'r Cyhoedd

Mae'r hysbysiad hwn wedi'i ysgrifennu yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth berthnasol

**Tîm Llywodraethu Gwybodaeth**

**Lisa Richards**
Swyddog Diogelu Data
**Sam Bishop/Maria Litchfield**
Swyddogion Datgelu Data a Chofnodion

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
data.protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000

## 1. GWYBODAETH BWYSIG

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu sut y caiff data personol a gasglwn ei gadw a'i ddefnyddio. Mae'n ofynnol i ni o dan y ddeddfwriaeth diogelu data eich hysbysu o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw'r hysbysiad hwn yn rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Gallwn ddiweddaru'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg ac os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn sicrhau bod copi wedi'i ddiweddaru o'r hysbysiad hwn ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd a hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ein prosesu data. Gellir dod o hyd iddo ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi gwybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data personol ar gyfer arolygon ymgynghori cyhoeddus.

## 2. PWY YDYN NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolydd data felly ni sy'n gyfrifol am data personol sydd gennym. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau, a cheir manylion amdanynt ar ein gwefan. Pan soniwn am yr Adran, rydym yn cyfeirio at yr adran sy'n gyfrifol am gasglu data'r arolwg y byddwn yn manylu arno yn yr arolwg. Yr adran honno sy'n gyfrifol am brosesu eich data ar gyfer y gwasanaethau y manylir arnynt yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i'r unigolion sydd wedi cwblhau arolwg ymgynghori.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data. Mae manylion sut i gysylltu â'r Swyddog ar frig yr hysbysiad hwn.

## 3. PA DDATA PERSONOL A DDEFNYDDIR

Gallwn gasglu, defnyddio, storio a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi fel â ganlyn:

- Disgrifyddion personol sy'n cynnwys eich enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, dyddiad geni

Gallwn hefyd ddefnyddio a storio data demograffig sy'n rhoi cyd-destun i'ch data personol, megis:

- Data ffordd o fyw, bydd y data hwn yn cynnwys eich statws priodasol, eich nodweddion, eich statws ariannol a chymdeithasol, barn bersonol, gofynion dietegol arbennig.
- Data sy'n ymwneud â'ch bywyd teuluol megis nifer y bobl sy'n byw yn eich cartref, eich perthnasoedd, i ba ysgol y mae eich plant yn mynd iddi, a yw'ch plant yn hŷn ac yn y brifysgol neu ddim yn byw gartref mwyach,

Mae yna gategorïau arbennig o ddata personol mwy sensitif sydd angen lefel uwch o ddiogelwch. Rydym yn casglu, storio a defnyddio'r categorïau arbennig canlynol o ddata personol amdanoch chi:

- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Barn wleidyddol
- Credoau crefyddol neu athronyddol
- Bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol

Rydym yn esbonio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir i gasglu'r data hwn amdanoch yn adran 4 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

## 4. SUT MAE EICH DATA PERSONOL YN CAEL EI GASGLU

Rydym yn casglu data personol amdanoch chi drwy'r arolwg yn uniongyrchol gennych chi.

Byddwn yn mewnbynnu eich data personol i systemau cyfrifiadurol y Cyngor. Caiff eich data personol ei storio ar weinyddion cyfrifiadurol diogel y Cyngor a dim ond personél awdurdodedig all gael mynediad ato. Pob blwyddyn, mae'r holl bersonél sydd â mynediad at eich data personol yn cael hyfforddiant ar ddiogelu data a diogelu gwybodaeth.

Gall y Cyngor hefyd ddefnyddio darparwyr meddalwedd arolygon fel Snap Survey neu Miller Research a bydd yn eich cynghori yn unol â hynny.

Byddwn yn casglu data personol ychwanegol yn ystod swyddogaethau busnes y Cyngor a'r gwasanaethau a ddarparwn i chi drwy gydol eich cyswllt â ni. I gael rhagor o wybodaeth am sut y defnyddir eich data personol mewn meysydd gwasanaeth eraill, ewch i'n hysbysiad preifatrwydd webpage .

## 5. SAIL GYFREITHIOL AR GYFER PROSESU

Hefyd, byddwn ond yn defnyddio eich data personol lle mae'r ddeddfwriaeth diogelu data yn caniatáu hynny. Bydd y rhain yn cynnwys y darpariaethau a nodir o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32016R0679&from=EN> a, lle bo'n berthnasol, Deddf Diogelu Data 2018 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents/enacted>. Byddwn yn defnyddio eich data personol yn yr amgylchiadau canlynol:

Erthygl 6(1)(f) sy'n ymwneud â'n buddiannau cyfreithlon (neu rai trydydd parti) ar yr amod nad yw eich buddiannau a'ch hawliau sylfaenol yn diystyru'r buddiannau hynny.

## 6. RHANNU EICH DATA PERSONOL

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data personol gyda'r holl Adran i roi'r cymorth sydd ei angen arnoch, byddwn hefyd yn rhannu eich data yn fewnol ag Adrannau eraill sy'n cynnwys:

- Rheolwr gwasanaeth neu swyddog cyfatebol a ofynnodd am arolwg
- Yn dibynnu ar y rhesymau dros yr arolwg, mae ymatebion dienw ar gael ar gais gan yr adran berthnasol neu wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan.

Nid ydym yn rhannu eich data personol fel mater o drefn gyda sefydliadau allanol er mwyn darparu'r Gwasanaeth hwn.

Efallai y bydd adegau pan fydd yn rhaid i ni rannu eich data personol â Llywodraeth Cymru am resymau ystadegol a dadansoddi. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio data personol a gedwir gennym ni i reoleiddio sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau cyhoeddus.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd . Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn eich hysbysu cyn gynted â phosibl a gallwch ddisgwyl lefel debyg o amddiffyniad mewn perthynas â'ch data personol.

## 7. AM BA MOR HIR YDYM YN CADW EICH DATA PERSONOL?

Byddwn ond yn cadw eich data personol cyhyd ag y bo angen i gyflawni'r dibenion y casglwyd ar eu cyfer, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd. Bydd y data personol a gesglir yn unol â'r prosesu a nodir yn yr hysbysiad hwn yn cael ei gadw am flwyddyn. Ar ôl y dyddiad hwn, caiff yr arolygon eu gwneud yn ddienw lle bo angen a bydd eich data personol yn cael ei ddinistrio'n ddiogel.

Mae manylion cyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau ar eich data personol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan ( www.merthyr.gov.uk).

## 8. SUT RYDYM YN CADW EICH DATA PERSONOL YN DDIOGEL

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal eich data personol rhag cael ei golli'n ddamweiniol, ei ddefnyddio, ei gyrchu, ei newid neu ei ddatgelu mewn ffordd anawdurdodedig. Rydym yn cyfyngu mynediad at eich data personol i'r gweithwyr hynny sydd ag angen busnes i wybod amdano. Dim ond ar ein cyfarwyddiadau ni y bydd ein gweithwyr yn prosesu eich data personol, ac maent yn destun dyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ymdrin ag unrhyw amheuaeth o dorri diogelwch data a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys am amheuaeth o dorri rheolau lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn cadw eich data personol yn ddiogel drwy gysylltu â'n Swyddog Diogelwch Gwybodaeth ar information.security@merthyr.gov.uk .

## 9. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawliau o dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol. Amlinellir y rhain yn y GDPR ac maent yn cynnwys:

- Yr hawl i Gywiro – mae gennych yr hawl i ofyn i'ch gwybodaeth gael ei chywiro.
- Gall yr hawl i Gyfyngu ar brosesu fod yn berthnasol – gallwch ofyn i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol, fodd bynnag, gallai hyn oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd angen i ni gadw neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i Wrthwynebu – nid yw hon yn hawl absoliwt a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.
- Yr hawl i Ddileu - gallwch ofyn i ni ddileu eich data personol fodd bynnag, gallai hyn achosi oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth, neu barhau i ddarparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd angen i ni gadw neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i beidio â bod yn destun prosesau gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.
- Hawl Mynediad – mae gennych hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch data personol. I wneud cais, cysylltwch â'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth.

Mae'n bwysig bod y data personol sydd gennym amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os gwnewch unrhyw newid i'ch data personol fel y gallwn ddiweddaru ein cofnodion.

Os ydych chi eisiau adolygu, dilysu, cywiro, gofyn am ddileu, gwrthwynebu, neu ofyn i ni drosglwyddo copi o'ch data personol i barti arall, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd ar frig yr hysbysiad hwn.

## 10. MANYLION PELLACH

Mae gennych hefyd yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i'n Swyddog Diogelu Data, y darperir ei fanylion cyswllt uchod, neu i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylio'r DU ar gyfer materion diogelu data:

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad: | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH |
| E-bost: | wales@ico.org.uk |
| Ffôn: | 0330 414 6421 |

Os ydych am ddod o hyd i ragor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu eich data personol gan gynnwys diogelwch data, cadw data, hawliau unigol, ewch i'n polisi preifatrwydd llawn . Gallwch hefyd gael gwybodaeth yn uniongyrchol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gwefan , www.ico.org.uk.